CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CHWEFROR 16, 2021

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar Zoom
Nos Fawrth, Chwefror 16, 2021 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Karen G. Goswell, Geralllt Griffith, Llion Rh. Williams, Rhun Prys Jones, Emlyn Roberts, Huw A. Evans, Barry Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb.

2. Ymddiheuriadau: Mordaf Roberts a Meurig Ashton.

3. Datgan diddordeb.

Doedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 19, 2021

Wedi cywiro 10.a. 'bod grid yn ymyl Tŷ'r Orsaf, Drws y Nant wedi cau gyda dŵr yn cronni yn ôl a gorlifo i'r ffordd' i ddarllen 'bod y gwter yn ymyl Tŷ'r Orsaf, Drws y Nant wedi cau gyda dŵr yn cronni yn ôl a gorlifo i'r ffordd' cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 19, 2021

Eitem 8.g. Mae Prisiwr, Adran Trethi, Cyngor Gwynedd am ymweld â phob eiddo.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (22/1/2021) oddi wrth Un Llais Cymru ynglŷn gwella ymwybyddiaeth gyfraniad cynghorau tref a chymuned i gymuned leol. Amgáu mae copi o 'Cysylltu â'ch cymuned leol - Canllaw Cyfathrebu i Gynghorwyr Cymuned a Thref Cymru a'u Clercod' cafodd ei baratoi gan Llywodraeth Cymru.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

b Llythyr (25/1/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu Agenda Cyfarfod Cyffredinol Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar Star Leaf am 7.00yh dydd Mercher 3/2/2021. Amgáu hefyd mae cofnodion Cyfarfod Cyffredinol 2/12/2020.

Llythyr (26/1/2021) gyda linc Star Leaf i'r cyfarfod.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

c. Llythyr (1/2/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau am fis Chwefror.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (3/2/2021) oddi wrth Mrs Hazel Elliot, Cae'r Defaid, Rhydymain yn rhoi gwybod mae angen llenwi'r bin halen.

Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (11/2/2021) yn rhoi gwybod am Ymgynghoriad Cyhoeddus: Canllaw Cynllunio Atodol Drafft: CCA3: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Mae angen anfon ymatebion i polisi.cynllunio@eryri.llyw.cymru cyn Mawrth 26,2021.

Anfonwyd yr eitem i'r aelodau.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (15/1/2021) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhydygorlan yn diolch am ein rhodd o £600 tuag at y Neuadd (2019 / 2020). Amgáu mae Mantolen.

b. Llythyr (16/1/2021) oddi wrth Llên y Llannau. Maent angen cymorth ariannol tuag at gyhoeddi'r rhifyn. Amgáu mae Mantolen.

c. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol:

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Dawns i Bawb, Urdd Gobaith Cymru, Marie Curie, Radio Ysbyty Gwynedd, Cerebral Palsy Cymru (gynt yn Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru), Tenovus Cancer Care, Hope House Children's Hospices (Tŷ Gobaith), Llên y Llannau.

Llythyr (26/11/2019) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137. Y terfyn ar gyfer 2020-21. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 o dan adran 137(1) ac (3) £8.32, am bob etholwr, at ddibenion elusennol a sefydliadau eraill.

Bydd yr uchafswm yn £8.32 x 603 = £5,016.96.

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Adran 137(4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:
Llên y Llannau: £50
Ambiwlans Awyr Cymru: £200
RABI Meirionnydd = £100

Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adloniant, celfyddydau):
Eisteddfod Llanfachreth: £250
Sioe Arddwriaethol ac Amaethyddol Rhydymain a'r Cylch = £100
Urdd Gobaith Cymru = £100

Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (cyfleusterau hamdden):
Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau: £200
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £250

Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adeiladau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus):
Neuadd Brithdir: £600
Neuadd Rhydygorlan: £600
Neuadd Llanfachreth: £600
Neuadd Rhydymain: £600

Cyfanswm = £3,650.

ch Eitem 10.b. Derbyniwyd pris (16/2/2021) oddi wrth Signs Workshop, Ganllwyd am hysbysfwrdd yn Llanfachreth. Ei bris fydd £595.20. (Gweler Eitem 10.b. yn Cofnodion Ionawr 19, 2021)

Penderfynwyd derbyn y pris a chyflwyno cais i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am grant 'Cronfa Prosiectau Cymuned Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri'.

d. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Ionawr 2021: £1,141.30.
Balans yn y banc ar 29 Ionawr 2021: £7,441.09. (29/1/2020: £4,412.82).

9. Archwilio

a. Llythyr (25/1/2021) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r cynghorau paratoi eu cyfrifon blynyddol 2020-21 gan ddilyn amserlen 2019-20 er effaith yr pandemig.

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Anfonwyd llythyr (10/12/2020) i Reolwr Stadau, Cyngor Gwynedd yn gofyn am y diweddaraf i drosglwyddo naill y Maes Parcio neu y Maes Chwarae sydd wrth Ysgol Llanfachreth i'r Cyngor Cymuned.

Cafwyd wybod mae cynllun i adeiladu dau dŷ ar safle'r ysgol i bobl leol. Bydd y maes parcio yn rhan o'r cynllun.

b. Anfonwyd llythyr (26/1/2021) i'r aelodau ynglŷn â phroblem dai i drigolion Gwynedd a thai gwyliau / ail gartrefi. Amgáu roedd dau adroddiad sydd wedi'i mabwysiadu gan Gyngor Gwynedd yn ddiweddar:

1. Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21 - 2026/27
2. Adroddiad o waith ymchwil manwl ynglŷn â defnydd o dai fel cartrefi gwyliau.

Bwriad y Cyngor ydi perswadio Senedd Cymru i weithredu a deddfu ar yr argymhellion.

Mae'r ddau adroddiad yn rai cynhwysfawr a disgwylir aelodau roi ychydig o'u hamser i'w darllen. Mae Cynghorwyr Gwynedd yn sylweddoli fod y sefyllfa dai yn echrydus ac yn benderfynol i weithredu.

c. Llythyr (30/1/2021) oddi wrth Cyngor Tref Abermaw. Mae'r Cyngor wedi comisiynu dogfen ar werth busnesau hunan-darpar (self-catering) yng Ngwynedd, yn arbennig i Y Bermo. Mae'r ddogfen yn ymateb i bapur cafwyd ei chyflwyno gerbron Cabinet Cyngor Gwynedd dan y teitl 'Gwaith ymchwil tai gwyliau'. Doedd y papur ddim yn rhoi gwybodaeth fanwl ar y gwahaniaeth rhwng busnesau hunan-darpar sy'n dod a chyllid fewn i'r sir ac ail gartrefi. Felly, cyflwynwyd adroddiad byr i'r Cyngor ar Ionawr 26 oedd yn cynnwys adroddiadau a gwerth economaidd sy'n dod o'r diwydiant twristiaeth. Mae papur mwy manwl yn cael ei pharatoi. Yn y cyfamser penderfynodd y Cyngor i rannu'r adroddiad pur i ehangu'r trafodaethau sydd eisoes yn cymryd lle.

Anfonwyd copi o'r llythyr a'r dogfennau i'r aelodau.

ch. Anfonwyd llythyr (11/2/2021) i Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi barn ar y sefydliad wedi digwyddiad yn Llanelltyd a Bontddu wrth dorri coed.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

d. Mae ymoliadau am ei wneud ynglŷn â:
waliau cafodd eu taro gan loriau yn cario coed.
Ffordd Station, Drwsynant i gael yr un driniaeth â ffordd i Aran Hall, Rhydymain yn ystod rhew.

11. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen agor cwter sydd wedi cau wrth Capel Hermon ar Rhiw Hafod Owen. Mae'r gwter ar gyfer y bin halen.

Llofnod: Dyddiad: